EUR-06-01 (min)

**Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 5 Rhagfyr 2001

**Amser:** 10.00am

**Lleoliad:** Ystafell De Gasperi, Gwesty'r Dorint, Brwsel

**Presennol: Aelodau**

Rhodri Morgan Llafur: Gorllewin Caerdydd

(Cadeirydd)

Nicholas Bourne Ceidwadwr: Canol a Gorllewin Cymru

Rosemary Butler Llafur: Gorllewin Casnewydd

Christine Chapman Llafur: Cwm Cynon

Mike German Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru

John Griffiths Llafur: Dwyrain Casnewydd

Tom Middlehurst Alun a Glannau Dyfrdwy

Jonathan Morgan Ceidwadwr: Canol De Cymru

Phil Williams Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru

Ieuan Wyn Jones Plaid Cymru: Ynys Môn

**Gwahoddedigion Sefydlog**

Jonathan Evans Aelod o Senedd Ewrop

Jill Evans Aelod o Senedd Ewrop

Glenys Kinnock Aelod o Senedd Ewrop

Eurig Wyn Aelod o Senedd Ewrop

Jos Gallagher Cyfarwyddwr, Canolfan Ewropeaidd Cymru

Rose D'Sa Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol

**Yn Bresennol**

Jerome Vignon Arweinydd, Tîm Llywodraethol y Comisiwn Ewropeaidd

Xavier Gizard Ysgrifennydd Cyffredinol Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arfordirol

Phil Bird Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol

Jackie Brown Pennaeth Uned, Rhaglenni Ewropeaidd

Des Clifford Pennaeth Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel

Gary Davies Pennaeth, Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol

Russell Keith Clerc y Pwyllgor

James Owen Dirprwy Glerc y Pwyllgor

**Eitem 1: Trafodaeth gydag Aelodau Senedd Ewrop**

1. Enwebwyd Ieuan Wyn Jones fel Cadeirydd dros dro, gan fod hediadau hwyr wedi achosi i Brif Weinidog Cymru a phedwar aelod arall o’r blaid fod yn hwyr yn cyrraedd. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd dros dro a nodwyd bod ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan Rhodri Glyn Thomas, Eluned Morgan,

Catherine Eva, George Wright, a'r Cynghorydd Jon Huish a'r Cynghorydd Brian Smith. Cytunodd y Pwyllgor i newid yr agenda er mwyn cael Adroddiad y Cadeirydd ar ôl i Brif Weinidog Cymru gyrraedd.

1. Croesawodd y Cadeirydd dros dro Aelodau Senedd Ewrop (ASE) i'r cyfarfod a gwahoddodd hwy i amlinellu'r prif faterion y maent yn ymwneud â hwy cyn cael trafodaeth agored gyda'r Pwyllgor.

1. Hysbyswyd y Pwyllgor gan Glenys Kinnock ASE y byddai cyfarfod llawn prysur yn Strasbourg yr wythnos nesaf a fydd yn archwilio'r materion canlynol:

1. Adroddiad ar reoleiddio a marchnata bwyd a chynnyrch bwyd.
4. Bydd trafodaeth ar rai materion Rhyddid a Chyfiawnder yn deillio o wrthdystiadau mewn cyfarfodydd o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd (UE) i sicrhau bod gan unigolion yr hawl i wrthdystio. Bydd trafodaeth yn gysylltiedig â hyn yn ymwneud â'r angen i fynd i'r afael â dieithrio dinasyddion Ewrop o sefydliadau'r UE.
4. Cwestiwn llafar ar ymladd terfysgaeth a phwerau diwygiol Senedd Ewrop.
4. Trafodir nifer o faterion yn ymwneud â physgodfeydd.
4. Dadl ar Sefydliad Masnach y Byd.
4. Dadl amaethyddol ar fwydydd Cyfansawdd ac adroddiad ar farchnata mêl.
4. Adroddiad ar yr Awdurdod Diogelu Bwyd Ewropeaidd.
4. Trafodaeth ar ailallforio bwyd anifeiliaid anaddas.
4. Bydd dyfarniad ar achos Ffrainc yn erbyn Prydain ar y gwaharddiad ar gig eidion o Brydain ar 13 Rhagfyr 2001.
4. Bydd adolygiad canol tymor ar y Polisi Amaeth Cyffredinol a fydd yn ymchwilio i faterion ehangu, diogelwch bwyd, hyder y defnyddwyr a chydnawsedd amgylcheddol.
4. Trefniadau ariannu ar gyfer darparu cymorth i Afghanistan.

1. Cododd Jill Evans ASE y pwyntiau canlynol ar y gwaith y mae hi yn ei wneud o dan strwythur Pwyllgor y Senedd:

4. Adroddodd y Pwyllgor Dros dro ar eneteg ddynol a thechnolegau newydd eraill mewn meddygaeth fodern i'r Senedd ar ganllawiau sy'n amlinellu materion cymdeithasol, economaidd a moesol mewn meddygaeth. Gwrthodwyd yr adroddiad gan y Senedd am nad oedd cytundeb barn ar y materion sylfaenol hyn.
4. Mae'r Pwyllgor ar Gyflogaeth a Materion Cymdeithasol wedi bod yn archwilio'r materion sy'n ymwneud â'r gyfarwyddeb ar wybodaeth ac ymgynghori â gweithwyr, Cyngor Gwaith Ewrop, cymorth ariannol i fentrau busnes bach a chanolig eu maint ac adroddiad ar anllythrennedd. Caiff effaith cyfarwyddebau arfaethedig ar Gymru eu camddehongli yn rheolaidd a gallai'r Pwyllgor chwarae rhan bwysig wrth ddosbarthu'r wybodaeth gywir i'r cyhoedd.
4. Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Iechyd y Cyhoedd a Pholisi Defnyddwyr wedi archwilio'r ddeddfwriaeth newydd ar fwyd a chynnyrch bwyd ac wedi adrodd ar gyfraniad y

cyhoedd ac ymgynghori â hwy ar gynlluniau sy'n effeithio ar yr amgylchedd.

4. Mae'r Cyd-Bwyllgor Seneddol â Lithuania wedi bod yn edrych ar gau gorsafoedd pŵer niwclear a chyfraniad y gymdeithas sifil a sefydliadau gwirfoddol mewn prosesau llywodraethol. Gall Cymru gyfrannu'n sylweddol i'r broses hon o'i phrofiadau ei hun.
4. Mae'r Comisiwn yn cynnal astudiaeth drylwyr o gydlyniad economaidd a chymdeithasol yng Ngweriniaeth Iwerddon, a bydd yr adroddiad o ddiddordeb i Gymru pan gaiff ei gyhoeddi.

1.5 Amlinellodd Jonathan Evans ASE y materion canlynol i'w hystyried gan y Pwyllgor:

1. Bydd gan y gyfarwyddeb ar beiriannau ysgwydol effaith ar y diwydiant amaethyddol yng Nghymru a bydd yn weithredol ymhen 5 mlynedd. Mae'r Gyfarwyddeb yn amlinellu diffyg dealltwriaeth ymysg swyddogion yn yr UE ynglŷn ag anghenion penodol y rhai o fewn y diwydiant amaethyddol mewn rhanbarthau megis Cymru.
4. Mae'r Pwyllgor Materion Economaidd ac Ariannol yn ddiweddar wedi trafod dyfodol y diwydiant dur. Adroddodd yr OECD bod gor-gapasiti o 20% yn y diwydiant a bod posibilrwydd y bydd yr Arlywydd Bush yn diogelu'r diwydiant yn yr Unol Daleithiau er mwyn ei alluogi i ailstrwythuro'n sylfaenol.
4. Bydd cymorth y wladwriaeth a threfniadau polisi cystadleuaeth yr un mor berthnasol i wladwriaethau newydd ac aelodau presennol yr UE.
4. Mae posibilrwydd y gallai'r Senedd sefydlu Pwyllgor dros dro i ymchwilio i argyfwng clwy'r traed a'r genau yn Ewrop a sut yr ymdriniwyd ag ef.
4. Ail-ddechreuwyd allforio wyn i Sbaen yn ddiweddar ac mae ASEau Cymru yn ymdrechu i ail-hyrwyddo amaethyddiaeth Cymru ledled Ewrop.
4. Byddai ASEau Cymru yn elwa ar wybodaeth ddiweddar ar y trafodaethau cig defaid a ohiriwyd o'r cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a fynychwyd gan Weinidog Materion Gwledig y Cynulliad.
4. Cynhaliodd y Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddar arolwg yn ymwneud ag asesiadau gan fusnes o'r amgylchedd rheoleiddio ym mhob un o'r 15 aelod wladwriaeth. Ystyriwyd mai'r amgylchedd rheoleiddio waethaf yn yr UE oedd y Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad ar gael i'w ddosbarthu i'r aelodau os ydynt yn dymuno. Gallai'r Cynulliad Cenedalethol chwarae rhan ymarferol wrth wneud yr amgylchedd rheoleiddio yn llai gelyniaethus yng Nghymru na gweddill y DU er budd busnesau yng Nghymru.
4. Mae'r ddirprwyaeth creu perthynas â Japan o ddiddordeb i'r Pwyllgor oherwydd y busnesau Japaneaidd sydd yng Nghymru. Mae busnesau Japan mewn trafferthion economaidd megis israddio statws credyd cwmnïau awyrennau. Is-raddiwyd economi Japan hefyd o fewn y saith diwrnod diwethaf gan asiantaethau statws credyd. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol roi sylw i'r mater hwn oherwydd ei effeithiau posibl ar gyflogaeth yng Nghymru.

1.6 Trafododd Eurig Wyn ASE y pwyntiau canlynol gyda'r Pwyllgor:

1. Mae'r Pwyllgor Diwylliant, Ieuenctid, Addysg, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi bod yn edrych ar adnoddau ar gyfer prosiectau diwylliannol. Nid yw'r Comisiwn ar hyn o bryd yn barod i hwyluso trafodaethau ar syniadau penodol a gaiff eu cyflwyno gan brosiectau diwylliannol bach o Gymru. Addawodd Eurig Wyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.
4. Mae'n bwysig bod ASEau yn cael eu hysbysu o'r datblygiadau diweddaraf ar gais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 fel y gallant roi eu cefnogaeth lawn i'r cais.
4. Mae'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi bod yn trafod materion yn ymwneud ag ehangu'r UE i'r dwyrain. Ar hyn o bryd, mae diffyg trefn ar gynlluniau ariannu a dargedwyd ar gyfer y gwladwriaethau newydd. Mae'n bwysig bod y gwladwriaethau newydd yn ymwybodol bod arian ar gael ar gyfer prosiectau amaethyddol dyfeisgar.
4. Byddai'n fanteisiol i ddirprwyaeth o'r Cynulliad fynychu'r Pwyllgor ar ieithoedd a diwylliannau llai eu defnydd yn y dyfodol.
4. Amlinellwyd dyfodol teledu digidol mewn cynhadledd ar deledu heb ffiniau. Amlinellodd y gynhadledd bod goblygiadau i Gymru yn deillio o'r defnydd cynyddol o deledu digidol.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

1. Nodwyd pryder yr Aelodau ynglyn â sefyllfa economaidd Japan a’r effaith bosibl ar swyddi yng Nghymru, a chynigiodd y Cadeirydd bod rhesymau economaidd da, o bosibl, dros y ffaith bod busnesau Japan am fod yng Nghymru yn hytrach na Japan.
4. Mae lle i ryngweithio rhwng Ewrop, y Cynulliad a llywodraeth leol ar gais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop, 2008. Mae'n bwysig dangos natur Ewropeaidd Caerdydd ac mae'r pwyllgor yn hyderus o'r ymagwedd ddyfeisgar a gaiff ei mabwysiadu gan gais Caerdydd. Bydd llywodraeth y DU yn penderfynu ar ganlyniad y cais ym mis Mawrth 2002. Gellid dosbarthu cofnodion cyfarfodydd bwrdd cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant i ASEau Cymru er mwyn eu hysbysu o'r datblygiadau.
4. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r berthynas rhwng Llys Cyfiawnder Ewrop a Chymru. Gellid trafod y trefniadau ariannol rhwng llywodraethau rhanbarthol a chenedlaethol yn y Cyngor os oes rheswm penodol dros effaith y trefniadau ariannu ar Gymru.
4. Mae'r gyfarwyddeb ar ymgynghori â gweithwyr yn bwysig er mwyn cau'r bylchau rhwng cyflogwyr a gweithwyr.
4. Efallai bod cyfleoedd i Brifysgolion ac Athrofeydd Cymru chwarae rhan wrth ailadeiladu Afghanistan. Mae'r UE wedi nodi anghenion addysgol sylfaenol merched ifanc yn Afghanistan fel maes penodol ar gyfer cyfranogiad.

4. Trafododd Uwchgynhadledd Lisbon faterion ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint megis creu swyddi, cynlluniau cyflogaeth cenedlaethol a gwella cysylltiadau ag Undebau Llafur Ewropeaidd. Mae'n bwysig bod y cymorth sydd ar gael i'r busnesau hyn yn cael ei amlygu ar lefel Ewropeaidd.
4. Cytunodd Jill Evans ASE i ddarparu crynodeb i'r Pwyllgor o weithgareddau'r Pwyllgor ar Gyflogaeth a Materion Cymdeithasol.

1. Amlinellodd y Cadeirydd dros dro werth y cyfarfod ym Mrwsel gyda'r ASEau a chyhoeddodd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Chwefror 2002, i gyd-fynd ag wythnos etholaethol yr ASEau.

**Eitem 2: Llywodraethedd**

1. Prif Weinidog Cymru fu'n Cadeirio gweddill y cyfarfod. Croesawodd y Cadeirydd Jerome Vignon, Arweinydd Tîm Llywodraethol y Comisiwn Ewropeaidd, a roddodd gyflwyniad i'r Pwyllgor ar bersbectif y Comisiwn ar ddadl lywodraethedd.

1. Cynhyrchwyd y Papur Gwyn o fewn cyd-destun y broses integreiddio Ewropeaidd yn symud yn ei blaen drwy gyfranogiad ei dinasyddion. Mae'n bwysig lleihau'r diffyg democrataidd drwy sicrhau bod yr UE yn atebol ac yn hygyrch. Teimla dinasyddion eu bod wedi'u dieithrio o sefydliadau Ewropeaidd ac nid ydynt yn ystyried cyfraniad a phrofiadau Ewrop. Mae'n bwysig ystyried gallu sefydliadau Ewropeaidd wrth sicrhau bod dinasyddion yn ymwybodol o'r gwaith a wneir ganddynt a sut y maent yn ei gyflawni, yn unigol ac ar y cyd. Felly cynhyrchwyd y Papur Gwyn i ymgorffori syniadau drwy ddefnyddio ymagwedd gynhwysol, o'r bon i'r brig wrth lunio polisïau. Mae angen cyfraniadau gan weithredwyr rhanbarthol a lleol ar yr ymagwedd hon ac mae'n edrych ar ddatganoli meysydd polisi Ewropeaidd. Mae gweithredwyr rhanbarthol a lleol yn rhwydweithio'n gynyddol gan gynyddu integreiddio a chydweithredu ledled Ewrop er bod rôl llywodraeth genedlaethol wrth hwyluso'r broses hon yn bwysig. Gall awdurdodau rhanbarthol hwyluso'r broses hon o ddod ag Ewrop yn nes at ei ddinasyddion a helpu i integreiddio gwledydd newydd o ddwyrain Ewrop i'r UE. Nid yw'r Papur Gwyn yn argymell cynghrair o ranbarthau Ewropeaidd; mae'n cydnabod mai gwladwriaethau cenedl oedd y conglfeini hanfodol nawr ac yn y broses o integreiddio Ewrop i’r Dwyrain yn y dyfodol.

2.3 Ceir tri phwynt gweithredu craidd ar gyfer y rhanbarthau a amlinellir yn y Papur Gwyn:

1. Archwilir beth yw rôl y gweithredwyr rhanbarthol a lleol wrth baratoi'r polisïau cenedlaethol. Gallai Pwyllgor y Rhanbarthau gymryd rôl ymgynghorol ffurfiol, drwy system o gasglu tystiolaeth, er mwyn asesu'r rôl y gallai rhanbarthau ei chwarae wrth lunio polisïau cenedlaethol. Mae'r Comisiwn hefyd yn targedu rhwydweithiau

Ewrop gyfan, megis Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arfordirol, fel rhan o broses ymgynghori anffurfiol ar y Papur Gwyn. Gall Cymru gyfrannu at y drafodaeth ar y Papur Gwyn drwy'r fforwm anffurfiol hwn.

4. Mae'n bwysig gwneud polisi Ewropeaidd yn fwy hyblyg er mwyn sicrhau y gellir ei addasu i gydymffurfio ag arferion gweithredu rhanbarthol. I raddau, rhaid i ddeddfwriaeth Ewropeaidd fod yn homogenaidd er ei bod yn bwysig i ranbarthau allu addasu polisïau i'w hanghenion eu hunain. Awgryma'r Papur Gwyn y gallai contractau tair ochrog ar lefel Ewropeaidd, cenedlaethol a rhanbarthol fod yn ddull o gyflwyno hyblygrwydd i bolisi. Gweithredir contractau tair ochrog fel rhan o raglen Ewropeaidd o ddeddfwriaeth hyblyg a syml. Gallai'r Pwyllgor Rhanbarthau hefyd drafod gweithredu deddfwriaeth Ewropeaidd ar lefelau rhanbarthol drwy ymgynghoriad ffurfiol a phroses o archwilio.

4. Mae'n bwysig bod yr Undeb Ewropeaidd yn mabwysiadu ymagwedd drefnus tuag at weithredu polisi drwy fframwaith o alluoedd a rennir. Rhaid diffinio galluoedd sefydliadau Ewropeaidd, gwladwriaethau cenedl ac awdurdodau rhanbarthol er mwyn cyflawni'r nod hwn.

1. Cyflwynodd y Pwyllgor y sylwadau canlynol mewn trafodaeth â Jerome Vignon:

1. Rhaid gwneud galluoedd sefydliadau Ewropeaidd, aelod wladwriaethau ac awdurdodau rhanbarthol yn fwy eglur. Mae angen ymagwedd strwythurol er mwyn sicrhau portread clir o'r galluoedd a rennir. Cyfrifoldeb aelod wladwriaethau yw cynnwys y rhanbarthau yn y broses ymgynghori hon.

4. Diben contractau tair ochrog yw symleiddio'r broses ddeddfwriaethol. Ymddiriedir yn y rhanbarthau i ddilyn eu dulliau eu hunain o gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y ddeddfwriaeth weithredol. Gallai Cymru lobïo i gymryd rhan yn rhan gyntaf y contractau tair ochrog er mwyn dylanwadu ar ffurfio a chynnwys y contractau.

4. Mae'n bwysig nodi mai dogfen ymgynghori yw'r Papur Gwyn.

4. Mae'n bwysig gweithredu'r egwyddor o is-reolaeth ledled yr UE. Mae angen system o sicrhau bod aelod wladwriaethau yn ymgynghori â gweithredwyr rhanbarthol ar sail gyfartal ledled yr Undeb.

4. Gallai'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol chwarae rôl yn y broses ymgynghori ac archwilio ar weithredu deddfwriaeth Ewropeaidd.

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Xavier Gizard, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arfordirol (CPMR), i'r cyfarfod. Dyma'r

cyfarfod cyntaf rhwng y Pwyllgor a'r CPMR ers i Gymru ymuno â'r sefydliad.

1. Amlinellodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ymateb CPMR i'r Papur Gwyn:

1. Mae'r CPMR wedi croesawu'r Papur Gwyn gan ei fod yn cynnig sail dderbyniol ar gyfer dadl, sy'n cynnwys ymgynghori ag awdurdodau rhanbarthol a lleol. Mae'r CPMR hefyd yn croesawu'r egwyddorion a'r ymrwymiadau a amlinellir yn y Papur Gwyn, yn arbennig yr ymrwymiadau i atgyfnerthu rôl y rhanbarthau yn y broses ddeddfwriaethol a symleiddio rhaglenni cydweithio rhyng-ranbarthol.

4. Cydlynodd y CPMR ymchwiliad i sicrhau yr ymgynghorwyd â phob rhanbarth yn Ewrop ar y Papur Gwyn. Bu'r ymgynghori hwn yn bwysig gan fod y CPMR o'r farn na fu digon o ymgynghori â'r rhanbarthau ar y Papur Gwyn yn y rhan fwyaf o aelod wladwriaethau.

4. Mae'r Papur Gwyn yn rhan o broses bwysig o ddiffinio rôl y rhanbarthau o fewn fframwaith sefydliadol Ewrop.

4. Mae'r CPMR yn cydweithio â'r Gyfarwyddiaeth-Gyffredinol Ranbarthol i lunio cyfansoddiad cod ymgynghori ffurfiol ar gyfer y rhanbarthau yn Ewrop fel rhan o'r Papur Gwyn ar lywodraethu. Caiff gweithgor ei sefydlu hefyd gyda'r Gyfarwyddiaeth-Gyffredinol Ranbarthol i edrych ar weithredu contractau tair ochrog, gyda gwahoddiad i'r Cynulliad fod yn rhan ohono.

4. Mae'r CPMR mewn trafodaeth â'r Gyfarwyddiaeth-Gyffredinol Amgylcheddol i lunio polisïau i'w gweithredu ar lefel ranbarthol.

4. Mae'r CPMR, Cynhadledd y Rhanbarthau sydd â Phwerau Deddfwriaethol a sefydliadau rhanbarthol eraill yn gweithio'n anffurfiol i atgyfnerthu rôl y Pwyllgor Rhanbarthau wedi'r etholiad yn y Flwyddyn Newydd.

4. Mae rôl y rhanbarthau yn Ewrop yn debygol o gael ei hystyried yn uwchgynhadledd Laeken a Chynhadledd Rhyng-lywodraethol 2004.

4. Bydd y CPMR yn cyfarfod cynrychiolwyr o'r Comisiwn yn 2002, gan ganolbwyntio ar effaith y Papur Gwyn ar faterion trafnidiaeth a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ac Amaethyddiaeth.

4. Mae'r CPMR wedi gweithio dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf i atgyfnerthu cyfranogiad dinasyddion yn y broses ddeddfwriaethol Ewropeaidd drwy haenau rhanbarthol o lywodraeth.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth â'r Ysgrifennydd Cyffredinol:

4. Nid yw'r CPMR am ffurfioli rolau o fewn yr UE; mae'n derbyn bod angen manylu ar alluoedd arbennig er y dylid rhannu'r mwyafrif o alluoedd. Dylid cynyddu'r defnydd o is-reolaeth.
4. Mae'r CPMR yn annog cyfathrebu materion llywodraethu i ddinasyddion yng Nghymru.
4. Gall llywodraeth leol chwarae rôl bwysig wrth sicrhau nad yw dinasyddion yn gynyddol ymddieithrio o'r broses wleidyddol. Mae gan y Pwyllgor Rhanbarthau aelodau o blith cynrychiolwyr Llywodraeth Leol Cymru.

1. Trafododd y Pwyllgor y ffordd orau i'r Cynulliad ymateb i'r Papur Gwyn ar Lywodraethu:

4. Mae'n bwysig cael dadl ar y Papur Gwyn mewn Cyfarfod Llawn i sicrhau y caiff pob Aelod y cyfle i gyfrannu i'r ymateb. Amlinellodd Jerome Vignon mai barn ffurfiol o Gymru ar sylwedd y Papur Gwyn fyddai'r dull mwyaf priodol o dderbyn cyfraniad gan y Cynulliad.

4. Caiff y papur ei gomisiyn i gael ei drafod yn y cyfarfod nesaf sy'n rhestru'r pwyntiau amlycaf o'r ddadl lywodraethu i'r Pwyllgor eu hystyried.

4. Caiff y papur yn amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda Jerome Vignon a Xavier Gizard eu comisiynu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

4. Bydd y Pwyllgor yn gwahodd cyflwyniadau ysgrifenedig ar gynnwys y Papur Gwyn i'w hystyried yng nghyfarfod 13 Chwefror 2002 gan gyrff sectorau cyhoeddus a phreifat ledled Cymru.

4. Caiff Cadeiryddion Pwyllgorau Rhanbarth eu hysbysu o bwysigrwydd y mater ac fe'u gwahoddir i ystyried y Papur Gwyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

4. Hysbyswyd y Pwyllgor gan Gary Davies y cynhelir digwyddiad fforwm Ewropeaidd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar faterion llywodraethedd ar 15 Chwefror 2002.

**Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd**

Papur: EUR-06-01(p1)

1. Cofnodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor.

**Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Papur: EUR-05-01 (min)

1. Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod diwethaf gydag un gwelliant. Byddai pwysigrwydd y Pwyllgor wrth wneud penderfyniad i gysylltu â rhanbarth arall yn cael ei bwysleisio yn y cofnodion.
1. Nododd y Cadeirydd bod Russell Keith, Clerc y Pwyllgor yn gadael y Cynulliad. Diolchodd y Pwyllgor i'r Clerc am yr holl waith a gyflawnodd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.